

Report Of Chief Executive

Subject: **Audit Wales Audit Plan 2025**

Summary

To receive the Audit Plan for 2025 from the Audit Wales.

Introduction

In accordance with the requirements of the Public Audit (Wales) Act 2004, the Local Government (Wales) Measure 2009, the Local Government Act 1999, and the Code of Audit Practice, the Authority is audited by Audit Wales. The main aim of this process is to:

- examine and certify whether our financial statements are ‘true and fair’;
- assess whether we have made proper arrangements for securing economy, efficiency and effectiveness in the use of resources;
- audit and assess whether we have discharged duties and met requirements of the Local Government Measure; and
- undertake studies to enable the Auditor General for Wales to make recommendations for improving economy, efficiency and effectiveness or for improving financial or other management arrangements.

The programme of work for the next year is outlined in the Audit Wales Audit Plan 2025, which is appended. This has been developed following a structured and risk-based planning process, which will remain ongoing throughout the audit.

Financial Considerations

The Authority pays a fee for the Audit work. Over a number of years the Authority along with the other two National Park Authorities have argued that this fee is too high.

Risk Considerations

The work undertaken by the Audit Wales can contribute to managing risk and providing assurance for the work of the Authority.

Compliance

The work undertaken by the Audit Wales as part of this plan is part of our compliance framework.

Human Rights/Equality issues

There are no specific implications.

Biodiversity implications/Sustainability appraisal

There are no specific implications

Welsh Language considerations

There are no specific implications

Conclusion

Members are asked to Note the Audit Plan.

RECOMMENDATION:

Members are asked to Receive and Note the Audit Plan 2025

Background documents

*(For further information, please contact Tegryn Jones at
Tegrynj@pembrokeshirecoast.org.uk)*

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cynllun Archwilio 2025

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4842A2025



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	5
Gwaith archwilio ariannol	6
Gwaith archwilio perfformiad	14
Swyddogaethau archwilio statudol	17
Ffi archwilio	17
Tîm archwilio	20
Ansawdd archwilio	21
Eich cefnogi chi	22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwrch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cynnal eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun yn dilyn proses gynllunio strwythuredig sy'n seiliedig ar risg, a fydd yn parhau drwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd fy archwilywyr a swyddogaethau penodol eraill yn cael eu cyflawni.

Wrth wraidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o onestrwydd proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd

archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 21) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu bodloni. Min hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf, Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024, yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, a darparu cipolwg gwerthfawr ar unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae fy rhaglen waith archwilio perfformiad lleol, fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn, yn cyd-fynd â gwaith archwilio cenedlaethol arall a allai gynnwys cwmplas eich sefydliad. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol hefyd lywio adroddiadau cenedlaethol ehangach.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am eich archwiliad bydd fy nhîm archwilio yn hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau

Ein diben



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Ein gweledigaeth



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd



Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Ein meysydd pwyslais



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Ceir rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynnyddol 2024-25](#) a hefyd [Ein Strategaeth 2022-27](#).

Gwaith archwilio ariannol

Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac a yw'r datganiadau wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chyfreithiol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Perthnasedd datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol a chywir, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn berthnasol nid yn unig i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu a chadw at y fframwaith cyfrifyddu a'r gyfraith berthnasol.

Gosodais berthnasedd cynllunio a pherfformiad i wneud y canlynol:

- pennu lefel y camddatganiad a allai achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- helpu i gwmpasu ein dull archwilio a phroffion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol;
- adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy adrodd.

Nodir y lefelau yr wyf yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol isod.

Perthnasedd cynllunio

yn cynrychioli 2% o'r gwariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliatedig 2023-24

£199,180

Trothwy adrodd (dibwys)

yn cynrychioli 5% o berthnasedd.

£9,959

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol

£1,000

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£5,000 (Unigolion)

Bydd fy nhîm archwilio yn asesu lefelau perthnasedd drwy gydol yr archwiliad.

Risgiau datganiadau ariannol sylweddol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

Risg o wrthwneud rheolaethau

Mae'r risg o wrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;
- gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol.

Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Rwy'n amlinellu isod risgiau eraill a nodwyd o gamddatganiadau perthnasol, ac er nad ydynt wedi'u pennu'n risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn dynnu eich sylw atynt.

Prisio rhwymedigaeth net/gwarged y gronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i fân addasiadau yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ei gyfrifiad.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth (ar 31 Mawrth 2024 er

enghraifft, roedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch).

Ceir hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad y rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi'i gam-ddatgan yn sylweddol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraid gan yr actiwari;
- asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a dilyn unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen;
- asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Prisio tir ac adeiladau

Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae'n ofynnol i dir ac adeiladau gael eu dal ar sail prisio sy'n dibynnu ar natur a defnydd yr asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau i'r rhain arwain at newidiadau sylweddol i brisiadau.

Mae'n ofynnol i'r asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o un flwyddyn i'r llall, ac mae risg y gallai gwerth cario asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol yr asedau ar 31 Mawrth 2025, yn enwedig yn yr amgylchedd

economaidd presennol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r prisiwr i asesu pa mor gyflawn ydyw;
- gwerthuso cymhwysedd, galluedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- profi sampl o asedau a ail-brisiwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y sail prasio, y data allweddol a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol;
- profi'r cysoniad rhwng y cyfrifylfr ariannol a'r gofrestr asedau.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch-swyddogion

Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol yn nifer yr uwch-swyddogion ar gyfer 2024-25, mae'r gydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch-swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol yn naturiol.

Felly, mae risg y gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad sylweddol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- deall unrhyw newidiadau i'r tîm uwch-reolwyr yn ystod 2024-25;
- sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol;
- sicrhau bod y symiau a delir yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod;
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion.

Gweithredu Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu Prydlesi IFRS16 o 1 Ebrill 2024.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth gyfrifo a'r datgeliadau sydd eu hangen ar gyfer asedau ar brydles ac yn golygu y bydd y rhan fwyaf o brydlesi yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.

Mae risg na chaiff gofynion yr IFRS eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu papurau gwaith yr Awdurdod i sicrhau bod yr holl brydlesi sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau;
- profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaethau i sicrhau bod y tybiaethau'n rhesymol, a bod y cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir;
- cadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi'u cyfrifo'n gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

Datgeliadau partiön cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd parti cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng yr Awdurdod a'r corff/parti arall.

Mae gan yr Awdurdod lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn barti cysylltiedig. Mae llawer ohonynt yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, pan fo perthnasoedd â phartiön cysylltiedig yn codi drwy berthnasoedd rhwng swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb mawr ac fe'u hystyriir yn berthnasol eu natur.

Mae risg o gamddatganiad sylweddol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo gwerth cymharol isel iddynt.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu proses yr Awdurdod ar gyfer nodi perthnasoedd partiön cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd â phartiön cysylltiedig;

- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Paratoi Cyfrifon

Yn ystod y ddwy flynedd archwilio ddiwethaf, dywedwyd wrthyfch fod angen cryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith a gyflwynwyd i'w harchwilio. Yn ystod archwiliad 2023-24, codwyd ffi archwilio ychwanegol ar yr Awdurdod o ganlyniad i'r gwallau a nodwyd yn ystod yr archwiliad a'r gwaith archwilio ychwanegol yr oedd ei angen.

Mae risg nad yw ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol o safon briodol, gan arwain at fwy o gamgymeriadau.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn trafod ac yn adolygu eich proses cau a'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi'r cyfrifon. Byddwn yn ceisio helpu i nodi meysydd lle gallai fod bylchau yn y trefniadau.

Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Isod mae amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu rhoi i chi.

Arddangosyn 1: Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Cynllunio	- Cyfarfod cynllunio - Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel - Asesiad risg twyll - Cynllunio amcangyfrifon cyfrifo - Asesiad risg amgylchedd TG - Ffi archwilio ddangosol - Cynllun Archwilio Drafft
Interim	- Llif gwybodaeth - Gweithdrefnau asesu risg manwl - Adolygiad o reolaethau TG - Datblygu strategaeth brofi - Profion samplu cynnar
Gwaith maes	- Diweddarau'r asesiad risg - Archwiliad o ddatganiadau ariannol i gynnwys adroddiad naratif a datganiad llywodraethu blynyddol - Cwblhau profion archwilio - Gwerthuso canfyddiadau'r archwiliad - Cyfarfod cloi'r archwiliad
Adrodd	- Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon - Argymhellion ar gyfer gwella - Cyflwyno'r canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu - Ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol - Crynodeb Archwilio Blynyddol - Dysgu ar ôl y prosiect

Gwaith archwilio perfformiad

Trefniadau priodol

Fel y nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i mi fodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ('gwerth am arian'), a dod i gasgliad yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn drwy gynnal rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau nad oes gan yr Awdurdod a'r sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru y trefniadau priodol ar waith, gyda'r gwaith fel arfer yn canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r risg fwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i'm harchwilwyr fod wedi ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys:



Cynllunio strategol



Rheoli asedau



Cynllunio ariannol



Gweithio ar y cyd



Rheoli perfformiad a risg



Llywodraethu cyffredinol



Cynllunio'r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi ystyried gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn yr Awdurdod.

Rwy'n cynnal fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang yw INTOSAI ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd...

...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y '**pum dull o weithio**'.



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Cynnwys

Rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau annibynnol fel rhan o'm rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol i wneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio'r gwaith sydd ei angen i waith archwilio perfformiad arfaethedig arall ar gyfer yr Awdurdod. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru er mwyn helpu i gydlynu ein gweithgareddau priodol.

Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad.

Cynaliadwyedd ariannol

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr, canolig a hir a fydd yn gofyn am gamau gweithredu gan bob corff. Yn ddiweddar, rydym wedi archwilio cynaliadwyedd ariannol cyrff llywodraeth leol eraill i gael mewnwelediad a chefnogi cyrff i ymateb i'r heriau hyn.

Rydym yn bwriadu adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol.

Amserlenni dangosol

Hydref 2025

Amserlen Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn yr Awdurdod i drefnu union amserlenni ar gyfer y prosiectau unigol a bydd hyn yn cael ei gyfathrebu'n rheolaidd. Nod fy archwilwyr yw cwblhau'r gwaith archwilio perfformiad a nodir yn y cynllun hwn yn sylweddol erbyn diwedd mis Mehefin 2026.

Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn ymatebol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Awdurdod.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddwyd ein Cynllun Ffioedd 2025-26 ar ôl ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n nodi'r cynnydd cyfartalog o 1.7% mewn cyfraddau ffioedd.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol archwiliedig yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar y cwantwm o waith a'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen.

Cyfanswm amcangyfrifedig eich ffi archwilio: £51,493

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr eu trafod â'r Awdurdod yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi dadansoddiad pellach o'ch ffi archwilio amcangyfrifedig.

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ariannol ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyledig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Bodlonir gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol gan y corff archwiledig, neu rhoddir trefniadau amgen addas ar waith sy'n bodloni anghenion fy nhîm archwilio.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Arddangosyn 2: Dadansoddiad o fy ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2025 (a 2024 er mwyn cymharu)

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2023 (£)¹

Archwiliad o'r datganiadau ariannol ²	Gwaith archwilio perfformiad ³
£31,836	£19,657
Cyfanswm y ffi: £51,493	

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2024 (£)

Archwiliad o'r datganiadau ariannol	Gwaith archwilio perfformiad
£31,304	£19,328 ⁴
Cyfanswm y ffi: £50,632	

Y ffi wirioneddol ar gyfer y gwaith datganiadau ariannol yn 2023-24 oedd £33,128, achos ffi ychwanegol o £1,824 yr oedd angen ei chodi ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol yr oedd angen ei wneud oherwydd y materion a nodwyd.

¹ Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

² Yn daladwy rhwng Tachwedd 2024 a Hydref 2025

³ Yn daladwy rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026.

⁴ Ffi amcangyfrifedig. Gwir ffi i'w gadarnhau ar ôl cwblhau'r cynllun archwilio.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd rhywfaint o waith archwilio ar y safle yn ailddechrau pan fo'n briodol gwneud hynny.

Mae gan gyrff archwiliedig gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan fyddant ar eich safle.

Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi'u crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: Fy nhîm archwilio lleol

Cyfarwyddwr Ymgysylltu

Gareth Lucey
gareth.lucey@archwilio.cymru

Arweinydd Ymgysylltu

Archwilio Ariannol

Gareth Lucey
gareth.lucey@archwilio.cymru

Archwilio Perfformiad

Gary Emery
gary.emery@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Jason Blewitt
jason.blewitt@archwilio.cymru

Timothy Buckle
timothy.buckle@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Isabel Hammond
isabel.hammond@archwilio.cymru

Charles Rigby
charles.rigby@archwilio.cymru

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'n tîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion. Yn ogystal, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw achos o wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Rydym yn destun craffu annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr, ac mae Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt â'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cefnogi i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch i'n gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd i ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well



Manylion ein gwaith a digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.